Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN15:

- **Batris**

| | |
|---|---|
| **Wedi'i ddiweddaru gan:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN15<br>Batris | |
|---|---|
| Lleoliad Cynhyrchu | Amrywiol |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 20 01 33* |
| Math | Yn hollol beryglus |
| Dull gwaredu | Didoli i'w ailgylchu / ailddefnyddio |
| Math o fin/bag | Biniau batris |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

**20 01 33*** - Batris a chronaduron wedi'u cynnwys yn 16 06 01, 16 06 02 neu 16 06 04 a batris a chronaduron nad ydynt wedi cael eu trefnu sy'n cynnwys y batris hyn - AH (yn hollol beryglus)

Mae dau fath o godau yn berthnasol i fatris gwastraff math domestig o gartrefi a busnesau:

- 20 01 33* batris a chronaduron wedi'u cynnwys yn 16 06 01, 16 06 02 neu 16 06 03 a batris a chronaduron nad ydynt wedi cael eu trefnu sy'n cynnwys y batris hyn - AH

- 20 01 34 batris a chronaduron eraill heblaw am y rhai hynny a nodwyd yn 20 01 33 - AN

Dylid dim ond defnyddio 20 01 34 pan rydych chi'n gwybod nad yw'r holl fatris sy'n bresennol yn beryglus o gwbl (h.y. pan fydd y batris wedi cael eu trefnu a'u nodi gan rywun sy'n gymwys i wneud hynny).

Dylid defnyddio 20 01 33* mewn pob achos arall, gan gynnwys ar gyfer;
- batris sydd wedi'u casglu ar y cyd, nad ydynt wedi cael eu trefnu na'u hasesu, lle na ellir sicrhau nad oes un neu'n fwy o fatris peryglus yno, a
- batris peryglus sydd wedi'u gwahanu o fathau eraill o fatris[1]

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau swm y gwastraff a anfonir i'w waredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wahanu yn y tarddle ac yn cael ei waredu drwy'r ffrwd wastraff gywir.

Ystyrir y gwastraff hwn yn beryglus, ac felly mae'n ofyniad cyfreithiol i fatris gael eu gwahanu o bob math arall o wastraff, dan Reoliad Gwastraff Peryglus, ac mae gwaredu ar fatris yn dod o dan Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff a Batris Gwastraff. Oherwydd eu bod nhw'n cynnwys adnoddau pwysig a deunyddiau a chemegau a all fod yn niweidiol, gan gynnwys plwm, cadmiwm, sinc, lithiwm a mercwri, mae'n bwysig nad ydynt yn cael eu rhoi mewn gwastraff na ellir ei ailgylchu neu finiau gwastraff ailgylchu eraill. Bydd pob batri a fydd yn cael ei ailgylchu yn cael ei gymryd yn ddarnau a bydd llawer o'r deunyddiau yn cael eu hadfer a'u defnyddio i greu batris newydd. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu system casglu batris sydd wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau y gellir ailgylchu batris a ddefnyddir gan bob Coleg ac Uned Gwasanaeth Proffesiynol.

[1] Cyfarwyddyd Technegol ynghylch Dosbarthu Gwastraff WM3

Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio. Mae hefyd yn arwain at risgiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol, gan gynnwys tân a llygredd.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

Mae lleoliadau ailgylchu batris mewn adeiladau allweddol ac mewn derbynfeydd ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Mae'r lleoliadau gwaredu batris ar Gampws Singleton a Champws y Bae wedi'u rhestru dan Lleoliadau Gwaredu Batris isod.

**Rhowch y batris safonol sydd wedi'u nodi isod yn y biniau ailgylchu batris a ddarperir yn unig.**




Ffigur 1 - Y mathau o fatris a dderbynnir a bin y batris

Er mwyn gwagio bin/tiwb ailgylchu batris, cyflwynwch archeb waith drwy borth y Ddesg Gymorth. Os oes batri'n gollwng yn eich bin ar gyfer batris, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am gyngor pellach.

**Ni ellir rhoi batris gwastraff mewn biniau ailgylchu neu finiau nad ydynt yn rhai ailgylchu mewnol neu allanol.**

**Bydd pob math arall o fatris yn cael eu gwaredu drwy wasanaeth Gwaredu ar Wastraff Peryglus y Brifysgol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am wastraff peryglus yma.**

**Mae cyfarwyddyd y Brifysgol ynghylch batris ionau lithiwm ar gael yma: https://www.swansea.ac.uk/media/SOP---Lithium-Ion-Batteries-1.pdf**

**Ar gyfer batris nad ydynt yn rhai safonol, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am gyngor.**

## Cost Gwaredu

Mae cost gwaredu gwastraff yn cael ei chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; o ganlyniad, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/cyfadrannau/Unedau Gwasanaethau Proffesiynol.

## Labelu

Gweler y templed

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk**

## Lleoliadau Ailgylchu Batris

**Campws Parc Singleton:**

Adeilad Talbot - Desg Gymorth Ystadau
Adeilad Talbot - Y llawr gwaelod isaf y tu allan i'r Ystafell Bost
ILS2 - Y llawr gwaelod y tu allan i'r Cyfleuster Ymchwil Glinigol ar y Cyd
Adeilad Wallace - Ardal y cyntedd ar yr ail lawr
Tŷ'r Undeb - Ar y llawr cyntaf, ger mynedfa Cove
Tŵr Vivian - Llawr 4, ystafell 415
Adeilad Faraday - Derbynfa Undeb y Myfyrwyr
Adeilad Grove - Prif Dderbynfa
Prif Lyfrgell Singleton
Adeilad Preseli - Prif Dderbynfa

**Campws y Bae:**

Adeilad Canolog Peirianneg - Prif Dderbynfa
Adeilad Dwyreiniol Peirianneg - Swyddfa Labordy Technegol B113A ar y llawr cyntaf
Llyfrgell y Bae
Nanhyfer - Derbynfa Desg Gymorth Ystadau
Archfarchnad Tesco
Derbynfa Rod Jones - Swyddfa UPP

***Caiff y rhestr hon ei diweddaru'n aml, ac os yw wedi cael ei hargraffu, efallai na fydd yn gyfredol***


Batteries